Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru

South Wales
Fire and Rescue Service

PECYN SWYDD WAG RHEOLWR ARDAL

Mawrth 2023

INVESTORS IN PEOPLE™
We invest in people Gold
Rydym yn buddsoddi mewn pobl Aur

INVESTORS IN PEOPLE®
We invest in wellbeing Silver
Rydym yn buddsoddi mewn llesiant Arian

hyderus o ran anabledd
YMRODDEDIG

Revised 14.03.23 (HJ,AR,DR)

TROSOLWG A CHYNNWYS

Datblygwyd y pecyn swydd wag hwn i ddarparu trosolwg lawn i ymgeiswyr o'r broses ymgeisio a dethol ar gyfer swydd **RHEOLWR ARDAL** gyda Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru (GTADC).

Dylai ymgeiswyr i ddarllen y pecyn cyfan cyn cyflwyno eu ceisiadau terfyynol.

CYNNWYS	RHIF TUDALEN
Adran A - Swydd Wag Rheolwr Ardal	3 i 4
Adran B – Y Broses Ymgeisio a'r Broses Ddethol	5 i 8
Adran C – Swydd Ddisgrifiad a Manyleb Person	9 i 14

ADRAN A – SWYDD WAG AR GYFER RHEOLWR ARDAL

Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru (GTADC) yw un o Wasanaethau Tân ac Achub (GTA) mwyaf, mwyaf llwyddiannus ac uchaf ei berfformiad yn y DU, yn gwasanaethu 1.6 miliwn o bobl ar draws 10 Awdurdod Unedol Cyfansoddol yn ymestyn o Ben-y-bont ar Ogwr i Drefynwy ac o Fae Caerdydd i Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Rydym wedi adeiladu enw da am ragoriaeth wrth ddarparu ein gwasanaethau, o ymateb i ddigwyddiadau brys i amrediad trawiadol o fentrau ataliol. Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru'n ymrwymedig i wneud ein cymunedau'r llefydd mwyaf diogel i fyw, i weithio ac ymweld â hwy, drwy ganolbwyntio ar ddiogelu cymunedol, denu a datblygu ein pobl, a gwneud defnydd effeithiol o adnoddau wrth gyflawni gwelliannau sefydliadol.

Mae'r Gwasanaeth yn rhagweld y tebygolrwydd y bydd swyddi gwag yn codi ar lefel Rheolwr Ardal. Wrth hwyluso penodiadau Penaethiaid Gwasanaeth eraill mae'r Gwasanaeth yn achub ar y cyfle i redeg y broses ar lefel Rheolwr Ardal hefyd. Mae'r Gwasanaeth ar hyn o bryd yn awyddus i benodi unigolion sy'n dangos agwedd frwdfrydig ac arloesol at arwain maes Gwasanaeth mawr, tra'n cynnal gwerthoedd ein Gwasanaeth –



Bydd y swydd hon yn darparu cyfle i'r ymgeisydd llwyddiannus i ddyrchafu diwylliant a gwerthoedd y Gwasanaethau Tân ac Achub wrth ddarparu arweinyddiaeth strategol effeithiol. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus hefyd yn cyfrannu at saernïo gwasanaethau a ddarperir i'n cymunedau yn Ne Cymru i'r dyfodol drwy law cydweithredu cryf, penderfynu eglur ac adeiladau a chynnal diwylliant â pherfformiad uchel. Bydd hyn, yn ei dro, yn cefnogi datblygiad rôl y Gwasanaeth o fewn cyd-destun ehangach seilwaith gwasanaethau cyhoeddus o fewn Cymru a gweddill y DU.

Ymgeiswyr

Gwahoddir ceisiadau gan Reolwyr Ardal parhaol NEU gan unigolion sydd wedi gwasanaethu am o leiaf 18 mis fel Rheolwr Grŵp B parhaol a chymwys.

Bydd angen i ddarpar ymgeiswyr ddangos dealltwriaeth drylwyr o swyddogaethau'r Gwasanaeth Tân ac Achub a'r materion sy'n wynebu'r Gwasanaeth o fewn Cymru a'r DU ill dau. Mae cynllunio cryf ynghyd â sgiliau sefydliadol a phobl yn hollbwysig. Bydd sgiliau cyfathrebu a sgiliau meithrin cydberthynasau/rhwydweithio rhagorol yn allweddol i gynnal swyddogaeth effeithiol, cynghori Aelodau'r Awdurdod Tân ac Achub ar lefel strategol a chefnogi cydweithrediad â Llywodraeth Cymru, Gwasanaethau Tân ac Achub a sefydliadau partner eraill.

Bydd disgwyl i'r ymgeisydd llwyddiannus fod yn aelod gweithredol o'r Cyngor Penaethiaid Tân Cenedlaethol (CPTC) drwy aelodaeth gorfforaethol y Gwasanaeth, a hefyd, bydd gofyn i iddo/iddi gwblhau "Gwobr Lefel 7 Sgiliau Er Cyfiawnder mewn Rheoli Digwyddiadau Strategol o fewn y Gwasanaethau Tân ac Achub" **A'R** "Cwrs Rheoli Strategol (Aur)" cyn gynted â phosib.

Cyflog

£65,894 (ffigurau yn amodol ar adolygiad yn dilyn dyfarniad cyflog Gorffennaf 2022) ynghyd â 20% o'r Dyletswydd Hyblyg, 14% o'r Lwfans Dyletswydd Barhaus a mynediad i Gynllun Car Prydles y Gwasanaeth

Oriau Gwaith/Argaeledd

Bydd oriau gwaith yn unol âg Amserlen System Ddyletswydd Rota Rheolaeth Aur y Gwasanaeth (Dyletswydd Barhaol). Bydd gofyn i'r ymgeisydd llwyddiannus weithio oriau anghymdeithasol. Gellir disgwyl bod amgylchiadau a threfniadau gwaith yr Awdurdod Tân gynnwys eich bod chi ar gael am gyfnodau estynedig y tu allan i oriau gwaith arferol.

Lleoliad

Lleolir y swydd ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân, Parc Busnes Forest View, Llantrisant, Pont-y-clun, CF72 8LX neu mewn unrhyw un o leoliadau eraill y Gwasanaeth. Bydd gofyn i'r ymgeisydd llwyddiannus fyw mewn lleoliad o fewn ardal Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, wrth ddarparu cwmpasiad gweithredol.

Gwybodaeth Bellach

I gael sgwrs anffurfiol am y rôl hon, cysylltwch â naill ai'r Dirprwy Brif Swyddog Tân Dewi Rose ar 01443 232003 neu'r Prif Swyddog Cynorthwyol Alison Reed ar 01443 232024.

Mae'r holl ddogfennaeth ar gael yn Gymraeg a Saesneg ill dau a chroesawn gyfathrebiadau yn y naill iaith neu'r llall.

Mae GTADC yn credu yng ngwir werth cael gweithlu amrywiol ac rydym am fod yn rhagweithiol wrth annog ymgeiswyr o bob sector o gymuned y GTA i ymgeisio.

ADRAN B – Y BROSES YMGEISIO A DETHOL

Mae'r tudalennau canlynol yn amlinellu'r broses Ymgeisio a Dethol ar gyfer swydd Rheolwr Ardal. Maent yn cynnwys amlinelliad o gamau'r broses ynghyd ag amserlenni allweddol. Cynghorir ymgeiswyr i ddarllen yr isod yn gyflawn yn ogystal â'r dogfennau yn adran C sy'n amlinellu'r Swydd Ddisgrifiad a'r Fanyleb Person penodol ar gyfer rôl hon.

Camau ac Amserlenni

Cynghorir ymgeiswyr i roi'u sylw llawn i'r amserlenni a'r dyddiadau ar gyfer y broses ddethol a nodir isod. Gan mai swydd uwch yw hon, mae'n annhebyg y gellir cynnig dyddiadau dethol/cyfweld eraill.

CYFNOD	GWEITHGAREDD	DYDDIADAU
Cam 1	Ymgeisio	13/03/23 – 28/03/23
Cam 2	Y Ganolfan Asesu	13eg a/neu 14eg Ebrill 2023
Cam 3	Asesiad Rheoli Digwyddiadau Lefel 4	Dyddiadau union i'w cadarnhau (Ebrill/Mai)
Cam 4	Cyfweliadau	Wythnos yn Dechrau 15fed a/neu 16eg Mai 2023
Cam 5	Archwiliadau Meddygol, Gwirio Gwiriadau a Diogelwch (Ymgeiswyr allanol yn unig)	Dyddiadau i'w cadarnhau gan y Tîm Recriwtio

CAM 1 – YMGEISIO

Gofynnir i ymgeiswyr gyflwyno'r canlynol:

1. Ffurflen gais ar-lein wedi'i chwblhau drwy wefan Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru (tudalen Swyddi Gwag Diweddaraf): https://www.decymru-tan.gov.uk/gweithio-i-ni/swyddi-gwag-diweddaraf/
2. CV cyfredol a chyfredol. Mae hwn i'w atodi i'r ffurflen gais ar-lein.
3. Dogfen Word yn manylu ar dystiolaeth yn seiliedig ar y meini prawf allweddol ar gyfer llunio rhestr fer a amlinellir yn y Fanyleb Person isod. Mae hwn i'w atodi i'r ffurflen gais ar-lein.

FFACTOR	TYSTIOLAETH	UCHAFSWM GEIRIAU

Gwybodaeth / Profiad	Rheolwr Ardal Gwasanaeth Tân ac Achub Parhaol a Chymwys NEU Reolwr Grŵp B â lleiafswm o 18 mis yn gweithredu ar lefel barhaol a Chymwys erbyn dyddiad cau'r hysbyseb*	**250 o eiriau**
Gwybodaeth / Profiad	Profiad o ddarparu cyngor a chefnogaeth dactegol wrth ddatrys digwyddiadau gweithredol sy'n cynnwys ymgysylltu aml-asiantaeth yn unol ag egwyddorion arferion gorau gweithredol*	**750 o eiriau**
Gwybodaeth / Profiad	Profiad o sefydlu a gosod cyfeiriad strategol clir e.e. llunio, arwain a gweithredu strategaethau adrannol*	**750 o eiriau**
Arddull Bersonol	Gallu ysgogi a rheoli prosesau newid ar raddfa fawr, gan geisio cyfleoedd i greu a chyflawni gwell effeithiolrwydd sefydliadol.*	**750 o eiriau**
Sgiliau Rhyngbersonol	Arweinydd cynhwysol â sgiliau rhyngbersonol cryf a all weithio'n gydweithredol ar draws ffiniau gan annog cydweithio â'r sawl o fewn y Gwasanaeth Tân ac Achub a'r Gymuned ehangach ill dau.*	**750 o eiriau**
Ymdrin â Gwybodaeth	Gallu casglu gwybodaeth er mwyn rhagweld anghenion y dyfodol a gwneud penderfyniadau strategol realistig.*	**750 o eiriau**
Effeithiolrwydd Sefydliadol	Gallu cyflawni cynlluniau adran yn effeithiol dros ben, gan sicrhau bod prosiectau a rhaglenni'n cael eu cwblhau yn unol â blaenoriaethau a therfynau amser sefydliadol wrth gydnabod effeithiau a goblygiadau gwleidyddol posib o safbwynt Strategol. *	**750 o eiriau**

***Sylwer:** ni chaiff unrhyw dystiolaeth a gyflwynir sy'n fwy na'r terfyn geiriau ei ddarllen neu'u hasesu. A fyddech cystal â nodi'r nifer o eiriau yr ydych wedi eu defnyddio ar eich dogfennau.*

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw Dydd Mawrth, 28ain Mawrth, 2023 am 12pm.

Dylid cyflwyno ceisiadau trwy ffurflen gais ar-lein CORE, y gellir ei gweld yn:

https://www.decymru-tan.gov.uk/gweithio-i-ni/swyddi-gwag-diweddaraf/

CAM 2 – Y GANOLFAN ASESU

Mae'r Ganolfan Asesu yn ffurfio rhan o'r broses ddethol gyfan. Fe'i defnyddir i asesu cymhwysedd i arwain a chymhwysedd ymddygiadol unigolion drwy law nifer o ymarferion a gynlluniwyd i asesu'r prif feysydd rhagoriaeth a nodir ar gyfer lefel "Arwain y Gwasanaeth" o Fframwaith Cenedlaethol CCPT.

Gall y Ganolfan Asesu gynnwys nifer o wahanol ymarferion megis gweithgareddau rheoli neu chwarae rôl mewn grwpiau, cyflwyniadau, profion seicometreg, asesiadau ysgrifenedig ac ati.

Bydd ymgeiswyr sy'n llwyddiannus yn y cam ymgeisio o'r broses yn derbyn gwybodaeth bellach yn ymwneud â'r Ganolfan Asesu gyda'r gwahoddiad i'r cam hwn o'r broses ddethol.

CAM 3 – ASESIAD RHEOLI DIGWYDDIADAU

I sicrhau gallu rheoli gweithredol ar gyfer rôl ar y lefel hon, bydd yn ofynnol i bob ymgeisydd llwyddiannus yn y cam ymgeisio a'r cam ganolfan asesu o'r broses ddethol ymgymryd ag asesiad Rheoli Digwyddiadau Lefel 4. Anfonir manylion pellach yn am hyn gyda'r ohebiaeth wahodd.

Yn unol â'r wybodaeth gynharach a amlinellwyd ar dudalen 4, bydd hefyd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus ar gyfer y swydd hon gyflawni 'Dyfarniad Lefel 7 Sgiliau er Cyfiawnder mewn Rheolaeth Digwyddiad Strategol yn y Gwasanaethau Tân ac Achub' AC "Rheolaeth Strategol Cymru (Aur) Cwrs" ar y cyfle cyntaf.

Sylwer: Ni fydd yn ofynnol i ymgeiswyr sydd eisoes wedi ennill "Dyfarniad Lefel 7 Sgiliau er Cyfiawnder mewn Rheolaeth Digwyddiad Strategol yn y Gwasanaethau Tân ac Achub" lawn ymgymryd â'r asesiad hwn a byddant yn symud ymlaen o'r Ganolfan Asesu i gam Cyfweld y broses ddethol.

CAM 4 – Cyfweliadau

Bydd cam cyfweld y broses ddethol yn cynnwys 2 gyfweliad:

Cyfweliad 1 – **Trafodaeth Broffesiynol**

Gyda phanel o aelodau o'r Tîm Arwain Gweithredol (TAG) a fydd yn asesu gallu, profiadau ac ymddygiad yr ymgeisydd yn erbyn y meini prawf a amlinellwyd o fewn y fanyleb person.

Cyfweliad 2 – Cyfweliad Terfynol ac Asesiad

Gyda'r Prif Swyddog Tân ac aelodau o'r Tîm Arwain Gweithredol. Cadarnheir y manylion yn nes at ddyddiad y cyfweliad.

CAM 5 – Archwiliadau Meddygol, Geirdaon a Gwiriadau Diogelwch

Mae'r cam hwn ar gyfer ymgeiswyr allanol yn unig.

I sicrhau y gall pob ymgeisydd ymgymryd â holl gyfrifoldebau a dyletswyddau'r swydd, ymgymerir â holl wiriadau geirdaon a diogelwch DBS perthnasol cyn y gwneir cynnig terfynol. Ceir manylion pellach am y cam hwn o'r broses ddethol ar yr adeg berthnasol.

Disgrifiad Swydd a Manyleb Person

Gweler y dudalen nesaf am fanylion llawn.

ADRAN C - SWYDD-DDISGRIFIAD A'R MANYLEB PERSON

SWYDD-DDISGRIFIAD	
TEITL Y SWYDD	Rheolwr Ardal
Rhif y Swydd	I'w Gadarnhau
Lleoliad	Y Pencadlys a/neu leoliadau eraill o fewn De Cymru
Yn gyfrifol i'r	Prif Swyddog Tân Cynorthwyol
Yn gyfrifol am	Gyfeirio a rheolaeth strategol adran ddynodedig o fewn GTADC (Mae'r Gwasanaeth yn cadw'r hawl i drosglwyddo unigolion rhwng adrannau yn unol ag anghenion busnes)

Cyfeiria'r swydd-ddisgrifiad hwn at brif bwrpas a chyfrifoldebau'r swydd. Nid yw hyn o reidrwydd yn nodi mewn manylder yr holl dasgau sydd eu hangen i gyflawni'r cyfrifoldebau hyn. Adolygir y swydd-ddisgrifiad hwn yn ôl y gofyn i sicrhau ei fod yn cwrdd ag anghenion busnes y Gwasanaeth

PRIF BWRPAS Y SWYDD
I roi cyfeiriad ac arweinyddiaeth strategol i adran ddynodedig o fewn GTADC. I ddarparu ar gyfer holl gyfrifoldebau ac amcanion sefydliadol a osodwyd gan y Gwasanaeth.

DYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU

Dyletswyddau/cyfrifoldebau Rheolwr Ardal yn erbyn y map rôl	**Cyfeirnod Map Rôl**
1. Cynnal lefelau uchel o gymhwysedd gweithredol ynghyd â mynychu digwyddiadau gweithredol yn ôl y gofyn.	EFSM2, EFSM16
2. Dehongli blaenoriaethau ac amcanion sefydliadol a'u trosi i gynlluniau Adran, gan ddyrannu adnoddau mewn perthynas â'r cynlluniau.	EFSM5, EFSM6, EFSM11, EFSM14
3. Ymgymryd â, a chynllunio gwaith prosiect a nodwyd sy'n flaenoriaeth sefydliadol gan arwain lle bo angen.	EFSM23, EFSM25
4. Sicrhau parhad busnes ac ymdrechu i gyflawni gwelliant parhaus fel aelod o'r Uwch Dîm Rheoli.	EFSM15,FSM17, EFSM18,EFSM19, EFSM20
5. Cynrychioli buddiannau'r Gwasanaeth mewn amryfal fforymau Rhanbarthol a Chenedlaethol.	EFSM20
6. Cadeirio, hwyluso a chyfrannu at gyfarfodydd ar lefelau adrannol a sefydliadol.	EFSM20

7. Sefydlu a chynnal cydberthnasau gwaith effeithiol o fewn y sefydliad.	EFSM14, EFSM15, EFSM20
8. Cynghori ar faterion Adrannol a materion perthynol cyfredol a'r dyfodol o bersbectif Lleol, Rhanbarthol a Chenedlaethol	EFSM17, EFSM20
9. Ceisio gwelliannau parhaus wrth sganio amgylcheddau mewnol ac allanol. Dyfeisio a chyflawni opsiynau strategol a thactegol ar gyfer gwella.	EFSM9, EFSM18, EFSM19, EFSM22
10. Rheoli cyllideb adran a dyrannu gwariant refeniw yn unol â blaenoriaethau ac anghenion adrannol a nodwyd.	EFSM11
11. Cyflwyno Cynlluniau'r Gyfarwyddiaeth drwy law gweithgarwch adrannol a phrosesau cynllunio.	EFSM5, EFSM6, EFSM8
12. Sicrhau bod yr Adran yn cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau sefydliadol.	EFSM5, EFSM6, EFSM8, EFSM9, EFSM20
13. Sicrhau cydymffurfiad â Rheolau Sefydlog a Chynllun Dirprwyaethau'r sefydliad.	EFSM19
14. Rheoli perfformiad yr Adran drwy law Rheolwyr o fewn y swyddogaeth. Sefydlu a monitro dangosyddion perfformiad allweddol. Datrys a rhoi adborth ar holl faterion perfformiad.	EFSM14
15. Adnabod anghenion personél ar gyfer y swyddogaeth a dyrannu meysydd a chwmpas cyfrifoldeb.	EFSM13, EFSM14
16. Sicrhau yr arfogir staff adrannol â'r wybodaeth a'r sgiliau perthnasol i gyflawni amcanion a bod ganddynt rym hyd at y lefel briodol.	EFSM15
17. Cynllunio a rhoi ar waith archwiliadau mewnol o wasanaethau adrannol, gan sicrhau cydymffurfiad â'r safonau ansawdd perthnasol.	EFSM18, EFSM19
18. Monitro ac archwilio gwybodaeth a sianelau cyfathrebu i dracio perfformiad a chyflawniad ar lefel unigol, tîm ac adran	EFSM14, EFSM19, EFSM20
19. Adnabod cyfleoedd ar gyfer hunan ddatblygiad a datblygiad proffesiynol yn barhaus a sefydlu rhwydwaith proffesiynol amrywiol.	EFSM14, EFSM15, EFSM16

GOFYNION GWASANAETH SAFONOL

- I fynychu cyrsiau hyfforddi mewnol ac allanol yn ôl yr angen
- Unrhyw ddyletswyddau eraill sy'n gymesurol â'r raddfa a'r swydd
- I gydweithredu'n llawn ag unrhyw gynllun neu gynllun peilot o'r fath a gyflwynir o fewn yr adran neu ar draws y Gwasanaeth.
- I weithredu egwyddorion Polisïau Cyfle Cyfartal ac Amrywiaeth a Chynllun Iaith Gymraeg y Gwasanaeth wrth gyflawni'r dyletswyddau uchod, yn ogystal â herio ymddygiad ac agweddau amhriodol a gwahaniaethu bob amser.
- I ufuddhau i Ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch/Polisïau a Gweithdrefnau Gwasanaeth Perthnasol a chymryd gofal rhesymol am eich iechyd a diogelwch eich hun yn ogystal ag eraill a all gael eu heffeithio'n andwyol gan eich gweithredoedd/anweithredoedd. Cywiro, cyn belled ag y mae'n rhesymol ymarferol, neu adrodd i'r uwch reolwyr, unrhyw sefyllfa waith a all achosi perygl difrifol neu berygl yn y dyfodol agos.

GWERTHOEDD SEFYDLIADOL

Wrth gyflawni'r rôl uchod, mae'n ofynnol i holl weithwyr y Gwasanaeth ufuddhau i, a hyrwyddo Gwerthoedd Craidd y Gwasanaeth bob amser.

INVESTORS IN PEOPLE™
We invest in people Gold
Rydym yn buddsoddi mewn pobl Aur

INVESTORS IN PEOPLE®
We invest in wellbeing Silver
Rydym yn buddsoddi mewn llesiant Arian

hyderus o ran anabledd
YMRODDEDIG

Y MANYLEB PERSON	
TEITL Y SWYDD	Rheolwr Ardal
Rhif y Swydd	I'w gadarnhau
Lleoliad	Y Pencadlys a/neu leoliadau eraill o fewn De Cymru
Yn gyfrifol i'r	Prif Swyddog Tân Cynorthwyol
Yn gyfrifol am	Gyfeirio a rheolaeth strategol adran ddynodedig o fewn GTADC (Mae'r Gwasanaeth yn cadw'r hawl i drosglwyddo unigolion rhwng adrannau yn unol ag anghenion busnes)

Mae'n bwysig strwythuro eich cais i ateb **pob Maen Prawf Tystiolaeth a amlygwyd ac a nodiwyd â Seren*** ar y Manyleb Person isod.

Dylech ddarparu tystiolaeth eglur sy'n arddangos eich bod yn cwrdd â phob maes ar sail eich sgiliau, gwybodaeth, profiad a gallu sy'n berthnasol i'r swydd. Defnyddir Meini Prawf Hanfodol a amlygwyd â **Serennig*** at ddibenion llunio'r rhestr fer. **Rhaid i ymgeiswyr ddarparu tystiolaeth ar gyfer pob un o'r meini prawf hyn a nodir y nifer o eiriau yn erbyn bob un - a fyddech cystal â chyfeirio at adran B i weld uchafswm y geiriau am bob un o'r meini prawf penodol.**

Ffactor	Tystiolaeth	Hanfodol/ Dymunol	Dull Asesu
Cymwysterau	Gwobr Sgiliau Er Cyfiawnder Lefel 7 mewn Rheoli Digwyddiadau Strategol Gwasanaethau Tân ac Achub Aelodaeth gorfforaethol o Sefydliad y Peirianwyr Tân	Dymunol Dymunol/ Hanfodol	Ffurflen Gais Ffurflen Gais
Gwybodaeth / Profiad	**Rheolwr Ardal Gwasanaeth Tân ac Achub Parhaol a Chymwys** **NEU** **Reolwr Grŵp B â lleiafswm o 18 mis yn gweithredu ar lefel barhaol a Chymwys ar ddyddiad cau'r hysbyseb*** **Profiad o ddarparu cyngor a chefnogaeth dactegol wrth ddatrys digwyddiadau gweithredol yn cynnwys ymgysylltu aml-asiantaeth yn unol ag egwyddorion arferion gorau gweithredol*** Gwybodaeth o ddeddfwriaeth a dyletswyddau sy'n benodol i'r Gwasanaeth Tân ac Achub.	**Hanfodol*** **Hanfodol*** Hanfodol Hanfodol	**Ffurflen Gais a'r Broses Ddethol*** **Ffurflen Gais a'r Broses Ddethol*** Proses Ddethol Proses Ddethol Proses Ddethol

	Gwybodaeth a phrofiad o reoli cyllidebau adrannol/swyddogaethol mawr, gyda ffocws ar werth gorau. Profiad o gynnal trafodaethau/ ymgynghoriadau ffurfiol ac anffurfiol gydag undebau llafur Y gallu i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg	Dymunol Dymunol	Proses Ddethol Ffurflen Gais
Arweinyddiaeth Ragorol	**Profiad o sefydlu a gosod cyfeiriad strategol clir e.e. llunio, arwain a gweithredu strategaethau adrannol***	**Hanfodol***	**Ffurflen Gais a'r Broses Ddethol***
Arddull Bersonol	Yn ymroddedig i Faterion Cydraddoldeb ac Amrywiaeth drwy hyrwyddo amrywiaeth a chynhwysiant ac ymgorffori agwedd deg a moesol ym mhob sefyllfa. **Gallu ysgogi a rheoli prosesau newid ar raddfa fawr, gan chwilio am gyfleoedd i greu a chyflawni gwell effeithiolrwydd sefydliadol.*** Y gallu i gyflwyno a hyrwyddo agwedd hyderus, trefnus a chanolbwyntiedig mewn sefyllfaoedd heriol dros ben yn gyson	Hanfodol **Hanfodol*** Hanfodol	Proses Ddethol **Ffurflen Gais a'r Broses Ddethol*** Proses Ddethol
Sgiliau Rhyngbersonol	**Arweinydd cynhwysol â sgiliau rhyngbersonol cryf a all weithio'n gydweithredol ar draws ffiniau wrth annog cydweithio â'r sawl o fewn y Gwasanaeth Tân ac Achub a'r Gymuned ehangach ill dau.*** Gallu cyfathrebu'n effeithiol ar lafar ac yn ysgrifenedig ill dau ag ystod eang o gynulleidfaoedd a dylanwadu arnynt, e.e. gydag aelodau o'r Awdurdod Tân, uwch reolwyr, staff, partneriaid allanol a chyfranddalwyr eraill. Bod yn ymrwymedig i ddatblygu eich hun, unigolion a swyddogaethau'n barhaus er mwyn gwella effeithiolrwydd gweithredol a chynyddu gallu, ymgysylltiad a pherfformiad o fewn y gweithle.	**Hanfodol*** Hanfodol Hanfodol	**Ffurflen Gais a'r Broses Ddethol*** Proses Ddethol Proses Ddethol
Gweithio â Gwybodaeth	**Y gallu i gasglu gwybodaeth er mwyn rhagweld anghenion y dyfodol a gwneud penderfyniadau strategol, realistig ill dau.***	**Hanfodol*** Hanfodol	**Ffurflen Gais a'r Broses Ddethol*** Proses Ddethol

	Dealltwriaeth o Iechyd a Diogelwch o fewn y gweithle a'r ymrwymiad i'w wella. Dealltwriaeth o Ddeddf Diogelu Data 1998, Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol 2018 a Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a'r gallu i weithio mewn cydymffurfiad llwyr ag hwy, a'r goblygiadau ar gyfer sicrhau cyfrinachedd ar bob adeg.	Hanfodol	Proses Ddethol
Effeithiolrwydd Sefydliadol	**Gallu darparu cynlluniau adrannol effeithiol dros ben gan sicrhau y cydlynnir a ddarperir prosiectau a rhaglenni yn unol â blaenoriaethau a therfynau amser sefydliadol wrth adnabod effaith a goblygiadau g o Safbwynt gwleidyddol.***	**Hanfodol***	**Ffurflen Gais a'r Broses Ddethol***

Bydd yn ofynnol i ddeilydd y rôl hon gyflenwi gan ddilyn amserlen weithredol, gan gynnwys Gwyliau Cyhoeddus a phenwythnosau

INVESTORS IN PEOPLE™
We invest in people Gold
Rydym yn buddsoddi mewn pobl Aur

INVESTORS IN PEOPLE®
We invest in wellbeing Silver
Rydym yn buddsoddi mewn llesiant Arian

hyderus o ran anabledd
YMRODDEDIG